

❖ MYFYRDOD ‘WELE CAWSOM Y MESEIA’

‘Be’ gest ti Dolig?’ Dyna fydd cwestiwn amryw ohonom yn dilyn Gŵyl y Geni, yn enwedig pan welwn ni blant bach. Teimlwn yn aml ein bod yn gofyn y cwestiwn am nad oes gennym ni ddim byd gwell i’w ofyn! Ar y materol y mae ein pwyslais bron yn ddi-feth, ac ar yr hyn a gafwyd – nid yr hyn a roddwyd. Rydym yn cynnig pob math o sothach i’n plant, gan feddwl mai pethau felly maen nhw’n dyheu amdany’n nhw.

Yn ddiweddar, dois ar draws adroddiad bach syml i blant gan Selwyn Griffith. Ynddo mae’r fam yn holi: ‘Be’ hoffet ti gael Nadolig ’ma, John?’ Mae’n cynnig pob math o bethau gwych i John bach, digon i godi blys ar unrhyw un! Ond ateb John i’w fam ydy:

Diolch i chi Mami
Am gynnig llond sach,
Llawn gwell fasa’ gen-i
Gael ci, neu frawd bach.

Gan siarad o brofiad, does dim byd yn hawlio mwy o amser a gofal rhywun na chael ci – neu fabi bach! Ac mae’n siŵr gen i fod John bach yn go agos i’w le yn gwrthod yr holl drugareddau, a’r rheiny’n cael eu cynnig iddo, o bosibl, am fod y fam druan yn ceisio gwneud yn iawn am yr amser yr oedd hi wedi ei golli gyda’i phlentyn yn ystod y flwyddyn. Yn y bôn, nid pethau mae plant eu hangen, ond amser a chwmmi a chariad.

Soniodd Dafydd Jones yn yr hen garol hon, ‘Wele cawsom y Meseia’, a ymddangosodd gyntaf ym 1764, am yr anrheg orau, fwyaf gwerthfawr a gafodd yr un ohonom erioed. Am yr anrheg y bu yna ddyheu mawr amdani ers cenedlaethau a chanrifoedd lawer yn Israel. Un a ddaeth yn faban bychan i dreulio amser yn ein plith, i rannu ei gariad a’i gwmmi yn hael â ni, ond yn fwy na hynny hefyd: i’w roi ei hun drosom yn ‘Ffrind a Phrynwr dynol-ryw’.

Fe gafodd y Meseia hirddisgwylidig hwn anrhegion ei hun hefyd. Er nad oes sôn yn yr hanes yn Luc am y bugeiliaid yn anrhegu Iesu, gallwn feddwl, os oedd hi’n dymor wyna arnyn nhw, eu bod nhw wedi mynd ag oen gyda nhw. Mae’n gwbl bosibl bod dyfodiad ‘Prynwr dynol-ryw’, yr un a aeth fel ‘Oen, ar ben Calfaria . . . i’r lladdfa yn ein lle’, wedi cyd-fynd â genedigaeth yr ŵyn ym Methlehem, y byddid yn eu defnyddio erbyn y Pasg fel aberthau i gofio am eu gwaredigaeth o’r Aifft.

Fe ŵyr Dafydd Jones beth yw’r anrheg orau y gallwn ninnau ei chyflwyno i’r ‘cyfaill’ hwn a ddaeth atom. Os talodd hwn ein dyledion i gyd ‘trwy ei waed’, a pheri nad ydy’n dyled ni yn ein rhwystro rhag dod at Dduw pan ‘groesodd filiau’r ne’, yna fe ddylai gael yr anrheg orau a mwyaf y gallwn ni fforddio ei rhoi iddo. Efallai y cawn ni lawer o anrhegion y Nadolig hwn eto, ond dim un a haedda’n cariad ni i gyd a’n diolch, byth heb dewi. Wnaiff dim llai y tro i’r ‘cyfaill gwerthfawroca’ ’rïoed’.

Gweddi

O Dad nefol, fe anfonaist ti dy Fab i’n hanrhegu â ‘bythol heddwch a rhyddhad’. Ni allaf ond cynnig fy nghalon iddo ‘a’i glodfori’n fwy nag un’. Amen.

Huw Powell Davies